

Nodiadau i Athrawon

TROSOLWG O'R PECYN

Mae diogelwch dŵr yn flaenoriaeth i Glandŵr Cymru. Gellir defnyddio'r pecyn adnoddau hwn ar gyfer disgyblion CA1 a CA2 ac mae'n cynnig syniadau ar gyfer addysgu plant sut i fod yn ddiogel ger afonydd a chamlesi.

DOLENNI I'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL

Mae'r gweithgareddau yn y pecyn hwn yn darparu ar gyfer y fframwaith anstatudol ar gyfer Addysg Personol Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI) drwy:

- Sicrhau bod disgyblion yn deall risg.
- Sicrhau bod disgyblion yn cael y wybodaeth a'r sgiliau i wneud penderfyniadau diogel a gwybodus.

Mae'r pecyn hefyd yn darparu ar gyfer y deilliannau dysgu a ragnodir gan y Gymdeithas ABGI yn ei fframwaith sy'n cael ei argymhell i ysgolion:

	Peryglon Cudd	Gorsafodd Achub	Gêm Diogelwch Dŵr	Adnabod y Peryglon
Deall risg	✓	✓		✓
Gwybodaeth a sgiliau i wneud penderfyniadau gwybodus		✓	✓	✓
Dysgu rheolau a ffyrdd o gadw'n ddiogel		✓	✓	✓
Gwahaniaethu rhwng risg a pheryglon	✓	✓		✓
Adnabod, rhagweld ac asesu risgiau mewn gwahanol sefyllfaoedd	✓			✓

Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys elfennau sy'n berthnasol i:

Saesneg:

- Barddoniaeth
- Ysgrifennu darbwyllo
- Ysgrifennu am ddigwyddiadau
- Dealltwriaeth

Gwyddoniaeth:

- Pethau byw a'u cynefinoedd
- Newidiadau tymhorol
- Y cylch dŵr

Addysg Gorfforol:

Mae nofio yn rhan orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Gall ysgolion gofrestru ar gyfer 'Siarter Nofio Ysgolion' Swim England er mwyn cael mynediad at gynlluniau gwersi ac adnoddau, gam gynnwys tystysgrifau a bathodynnau i wobrwyo cynnydd disgyblion.



ADNODDAU DIOGELWCH DŴR

- Ewch i'n gwefan ar gyfer adnoddau dysgu, gemau a heriau ar ddiogelwch dŵr.
<https://canalrivertrust.org.uk/explorers/water-safety>

AMCANION DYSGU

- Deall risg a bod â'r wybodaeth a'r sgiliau i wneud dewisiadau diogel a gwybodus.
- Dysgu rheolau a ffyrdd o gadw'n ddiogel, gan gynnwys diogelwch dŵr.
- Gwahaniaethu rhwng risg a pheryglon a chydabod, rhagweld ac asesu risgiau mewn gwahanol sefyllfaoedd a sut i'w rheoli'n gyfrifol.

MEINI PRAWF LLWYDDIANT

- Bydd y rhai sy'n gweithio tuag at safonau disgwylidig yn gwybod y rheolau diogelwch dŵr a'r negeseuon.
- Bydd y rhai sy'n gweithio i safonau disgwylidig yn gallu egluro'r rheolau diogelwch dŵr a'r negeseuon i eraill.
- Bydd y rhai sy'n gweithio'n fwy trylwyr yn gallu datblygu eu rheolau a'u negeseuon diogelwch dŵr eu hunain.

PARATOI

- Cyflwyniad cyffredinol i ddŵr a gwybodaeth am afonydd a chamlesi lleol.

GWEITHGARWCH DILYNOL

- Taith maes i ddyfrfordd leol.
- Ewch i'n gwefan i archebu ymweliad am ddim canalrivertrust.org.uk/explorers



Gwybodaeth ychwanegol a phwyntiau trafod ar sleidiau



SLEID 1 Geiriau allweddol

Bwriad y geiriau hyn yw atgoffa disgyblion wrth iddynt weithio. Gellir eu newid, neu gallwch ychwanegu eich geiriau eich hun.

- **Blwyddyn 1 a 2:** diogel, gofal, gofalus, rhew
- **Blwyddyn 3 a 4:** diogelwch, gofalus, arbennig, damwain, blaenoriaeth
- **Blwyddyn 5 a 6:** cymuned, cwmni, chwilfrydedd, cyfarpar, hamdden, gwerthfawrogi.

SLEID 2 Geiriau synhwyrdd

Mae'r geiriau hyn yn cefnogi ysgrifennu creadigol ac yn addas ar gyfer llunio cynghorion a negeseuon diogelwch dŵr.

Gallai disgyblion ychwanegu at y rhestrau hyn gan feddwl am arogl, golwg, sain, cyffyrddiad a blas.

SLEID 3 Gall ddigwydd i unrhyw un...

- Mae darllen y stori yn uchel yn fan cychwyn da ar beryglon dŵr, yn enwedig afonydd a chamlesi. Gall hyd yn oed y rhai cryfaf ohonom, gan gynnwys y rhai sy'n nofio'n dda, fynd i drafferthion.
- Gallai disgyblion ysgrifennu tri darn o gyngor i'r eliffant bach. Dylid rhannu'r holl syniadau o gwmpas y dosbarth a'u harddangos i gyfeirio atynt yn ddiweddarach.
- Dylech gymharu cyngor disgyblion gyda Chod Diogelwch Dŵr RoSPA (sleid 4).

SLEID 4 Cod Diogelwch Dŵr RosPA

- Gellir newid trefn y geiriau allweddol neu gallwch ychwanegu eich geiriau eich hun. Gall disgyblion iau wneud hyn mewn grwpiau neu gyda chymorth oedolion.
- Pwysleisiwch neges cadw'n DDIOGEL Glandŵr Cymru (Cadwch draw o'r lan) ar sleid 5 sy'n cyd-fynd â Chod Diogelwch Dŵr RoSPA.

SLEID 6/7 Adnabod y peryglon cudd!

Mae angen i ddisgyblion ddeall, y gall fod llawer o beryglon cudd er y gall y dŵr edrych yn apelgar ar ddiwrnod braf. Allwch chi adnabod y peryglon?

Afonydd:


- Creigiau llithrig
- Gwydr, caniau, gwrthrychau miniog o dan yr wyneb
- Canghennau wedi disgyn a chwyn trwchus yn y dŵr
- Dŵr sy'n llifo'n gyflym, sy'n ddwfn ac yn oer iawn.



Camlesi:

- Gwrthrychau miniog dan yr wyneb
- Dŵr sy'n llifo'n gyflym wrth ddefnyddio lociau
- Llwybrau tynnu llithrig
- Ymosodiadau gan elyrch
- Peiriannau dan y dŵr, e.e. llifddorau
- Clefydau a heintiau annymunol, e.e. Clefyd Weil

Pwysleiswch y neges **Cadwch Draw o'r Lan**.



SLEID 8/9 Peryglon A-Y

- Gofynnwch i ddisgyblion gwblhau taflen waith fel gweithgaredd gwaith cartref neu mewn parau yn y dosbarth.
- Gwahoddwch y disgyblion i chwarae 'tenis llafar' lle maen nhw'n sefyll mewn parau yn wynebu ei gilydd ac yn cymryd tro i enwi cymaint o beryglon â phosib mor gyflym â phosib. Gellir ond enwi pob perygl unwaith. Y person olaf i siarad sy'n ennill.

SLEID 10 Pennu'r Peryglon

Cwblhewch y dasg hon fel gweithgaredd dosbarth cyfan gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

- Gall disgyblion adnabod y peryglon a sicrhau eu bod yn glir pam eu bod yn beryglon posibl.
- Gallech drafod yr hyn sydd ei angen i wneud y peryglon yn ddiogel. Gallai disgyblion wneud rhestr o'r holl newidiadau sy'n ofynnol.

Gallai atebion gynnwys:

- Plentyn yn rhedeg i ffwrdd ar ôl i rywbeth dynnu sylw'r rhieni
- Plant yn chwarae'n rhy agos i'r lan
- Plentyn yn chwarae yn y gamlas
- Plant yn eistedd ar ymyl pont
- Plant yn swingio o goeden dros y gamlas
- Plentyn ar fin deifio i loc gyda cherhyntau cryf a dŵr dwfn iawn
- Cored gyda dŵr yn llifo'n gyflym
- Pysgotwr gyda pholyn hir a allai faglu pobl
- Gwrthrychau yn y dŵr a allai fod yn finiog neu ddal eich traed
- Beicwyr yn agos iawn i'r lan
- Dylech bwysleisio'r neges '**Cadwch Draw o'r Lan**'.



SLEID 13 Peidiwch â mynd ar eich pen eich hun

Pwysleiswch y neges o beidio â byth mynd i mewn i ddŵr neu fod o gwmpas dŵr ar eich pen eich hun gan na fyddai unrhyw un ar gael i'ch helpu pe baech yn mynd i drafferthion. O bryd i'w gilydd, gallai disgyblion ddymuno fod ar eu pen eu hunain a gallech bwysio a mesur y rhesymau dros hyn a sut y gallen nhw fod yn teimlo o dan yr amgylchiadau hyn.

- Anogwch y disgyblion i ysgrifennu cerdd yn dychmygu eu bod ar lan afon neu gamlas ar eu pen eu hunain gyda'r pwyslais ar eiriau a disgrifiadau synhwyraidd.
- Cymharwch gerddi'r disgyblion â *The River* gan Valerie Bloom ar sleid 14/15.

SLEID 14/15 *The River* gan Valerie Bloom

- Darllenwch *The River* gan Valerie Bloom yn uchel i'r dosbarth a thrafod ystyr y gerdd. Canolbwyntiwch ar sut mae'r gerdd yn rhamantus tan y pennill olaf sy'n awgrymu y gall afon fod yn beryglus a'ch 'llyncu'.
- Gallai disgyblion newid pob un o'r geiriau sydd wedi'u tanlinellu ac ailysgrifennu'r pennill olaf. Efallai y bydd disgyblion am greu darluniau i gyd-fynd â'r gerdd.
- Trwy ysgrifennu, dylai disgyblion ddangos bod ganddynt ddealltwriaeth glir o natur newidiol dŵr/amodau'r afon, a'r peryglon hyd yn oed pan fo'r dŵr yn ymddangos yn llonydd, hamddenol a chynnes.

SLEID 16 Dysgu sut i helpu

- Defnyddiwch enghreifftiau o berchnogion cŵn yn mynd i drafferthion wrth geisio achub ci yn yr afon neu'r gamlas, a sut mae'r cŵn yn aml yn gallu dod allan o drafferth ar eu pen eu hunain.
- Gan ddefnyddio'r wybodaeth RoSPA ar y sleid, gofynnwch i ddisgyblion lunio sribyn cartŵn yn tynnu sylw at bwyntiau diogelwch allweddol.
- Mewn grwpiau o dri, anogwch y disgyblion i actio golygfa fer o'r hyn ddylai ddigwydd pan fo rhywun yn disgyn i'r dŵr.

SLEID 17 Fy nghyngor diogelwch dŵr

- Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r daflen waith fel gweithgaredd gwaith cartref neu mewn grwpiau bach yn y dosbarth. Rhowch gyfle i ddisgyblion rannu eu hatebion gyda gweddill y dosbarth.

